# Gwybodaeth i Gleifion

# Dignewyllu / Diberfeddiad

# Uned Llygaid

**Dignewyllu – y llygad, mae'n golygu tynnu'r llygaid cyfan.**

**Diberfeddiad – mae'n golygu tynnu cynnwys y llygaid.**

Mae triniaeth/gofal y claf yr un peth ar gyfer y naill lawdriniaeth neu'r llall. Bydd eich Offthalmolegydd wedi trafod y rhesymau pam fod angen i chi gael y llawdriniaeth hon.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Bydd gofyn i chi ymweld â'r "Clinig Asesu" cyn i chi gael eich derbyn ar gyfer eich llawdriniaeth.

Bydd y prif nyrs yn cymryd eich manylion am eich iechyd cyffredinol ac yn dweud wrthych am yr hyn i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cael eich derbyn.

Byddwch yn cael rhai ymchwiliadau arferol megis gwirio pwysedd gwaed, samplau gwaed ac ati, bydd angen y canlyniadau ar y meddygon pan fyddwch yn cael eich derbyn.

**Os yw eich llawdriniaeth yn un frys, efallai y byddwch yn cael eich derbyn ar y ward ar unwaith.**

**Beth mae'r llawdriniaeth yn ei chynnwys?**

Byddwch yn cael eich derbyn ar y ward am hyd at 2 noson. Bydd y llawdriniaeth yn cael ei gwneud o dan anesthetig cyffredinol (tra'r ydych yn cysgu). Efallai y byddwch yn teimlo ychydig yn anghyfforddus yn dilyn y llawdriniaeth ond byddwch yn cael meddyginiaeth lleddfu poen digonol.

**Yn dilyn y llawdriniaeth, bydd gennych bad a rhwymyn dros ardal y llawdriniaeth.**

**Yn dilyn y llawdriniaeth**

Tua 48 awr ar ôl y llawdriniaeth, bydd y meddyg ymgynghorol yn tynnu'r dresin ac yn archwilio'r briw. Efallai y bydd cragen blastig galed glir yn cael ei gosod dros dro naill ai yn ystod y cam hwn neu yn eich apwyntiad claf allanol cyntaf.

Nid oes yn rhaid i chi dynnu'r gragen eich hun gan ei bod yno i gadw siâp y soced. Byddwch yn cael eich ffitio gyda llygaid artiffisial parhaol (fel arfer 8-12 wythnos yn dilyn y llawdriniaeth, pan fydd y briw wedi dechrau gwella).

**Byddwch yn cael eich cyfeirio at y Gwasanaethau Llygaid Artiffisial yn Ysbyty Rookwood yng Nghaerdydd.**

**Beth ddylwn ei ddisgwyl ar ôl i fy llygaid cael ei thynnu?**

Yn y lle cyntaf, pan fyddwch yn agor eich amrannau, fe welwch y soced llaith, binc wedi'i leinio â philen y llygaid. Bydd yn edrych fel y tu mewn i'ch ceg.

**Glanhau eich amrannau**

Mae hyn yn hynod bwysig gan ei fod yn lleihau'r risg o haint.

Toddwch ½ llwy de o halen mewn ½ peint o ddŵr wedi'i ferwi. Pan fydd y dŵr wedi oeri, rhowch belen wlân cotwm i mewn i'r toddiad a'i sychu ar hyd eich amrant gan ddechrau ar y pen sy'n nes at eich trwyn. Taflwch y gwlân cotwm. **Ailadroddwch nes bod yr amrannau'n lân.**

Byddwch yn cael eli gwrthfiotig i'w ddefnyddio 3 i 4 gwaith y dydd. Trefnir i nyrs ardal wneud hyn ac yna bydd yn eich helpu i'w wneud eich hun.

**Fel arfer, mae parasetamol yn feddyginiaeth lleddfu poen ddigonol.**

**A oes angen i mi orchuddio'r ochr lle cefais y llawdriniaeth tra'n aros am fy llygaid artiffisial?**

Mae hwn yn ddewis personol, nid oes yn rhaid i chi orchuddio'r ardal, ond os oes yn well gennych wneud hynny, gallwch ddewis defnyddio patsyn llygaid neu gallwch orchuddio eich sbectol gyda thâp ar yr ochr yr effeithir arni.

**Ymweld â'r adran cleifion allanol llygaid**

Byddwch yn cael eich gweld yn yr adran cleifion allanol llygaid fel y trefnwyd gan y ward tua 1 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth.

**Os nad ydych wedi cael ffitio cragen dros dro, bydd hyn yn cael ei wneud ar yr adeg hon.**

**Cyfeiriad ar gyfer prosthesis**

Byddwch yn cael eich cyfeirio at Ysbyty Rookwood yng Nghaerdydd lle lleolir y gwasanaeth llygaid artiffisial. Byddant yn gwneud llygaid artiffisial i chi (a elwir yn brosthesis), **bydd yn cael ei baentio'n arbennig â llaw i gyd-fynd â'ch llygaid arall.**

**Cofiwch!**

**Dylech geisio byw bywyd normal.**

**Lle gallaf gael cyngor pellach?**

Os oes angen gwybodaeth neu gyngor pellach arnoch, cysylltwch â'r canlynol:-

**Am gyngor cyn eich llawdriniaeth, cysylltwch â'r:**

**Adran Cyn Asesu ar: 01633 656261**

**Am unrhyw bryderon yn dilyn y llawdriniaeth, cysylltwch â'r:**

**Clinig Llygaid Brys ar: 01633 238856**
**Rhwng 8:30am-5:30pm neu'r**

**Meddyg Offthalmoleg ar ddyletswydd drwy'r switsfwrdd.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**